

**THE COUNTY COUNCIL OF THE CITY AND COUNTY OF CARDIFF**  
**SHIP LANE, BUTETOWN**  
**PUBLIC SPACES PROTECTION ORDER 2018**

The County Council of the City and County of Cardiff ("the Council") in exercise of its powers under Section 59, 64 and 72 of the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014 ("the Act") and all other enabling powers and following consultation with the Chief Officer of South Wales Police and others hereby makes the following Order: .

1. The Order shall come into operation on 20<sup>th</sup> day of May, 2018 and shall have effect for a period of 3 years thereafter, unless revoked, amended or extended by further orders under the Council'
2. This Order relates to that part of the public path coloured red on the attached Plan and described in Schedule 1("the Restricted Area").
3. The effect of this Order is to restrict the public right of way over the Restricted Area. This Order authorises the installation of metal gates (identified by a red star on the attached Plan) in the locations detailed in Schedule 1 which will give effect to the restriction.
4. The alternative route for pedestrians is described in Schedule 2
5. The Council is satisfied that the conditions set out in Sections 59, 64 and 72 of the Act have been satisfied and that it is in all of the circumstances expedient to make this Order for the purposes of reducing crime and anti-social behaviour in the Restricted Area.
6.
  - a. The Council is satisfied that the following activities have been or are likely to be carried out in the public space: Crime and Anti-Social Behaviour
  - b. This Order is made by the Council because the Council is satisfied on reasonable grounds that activities carried out or likely to be carried out in the public space that forms the Restricted Area:-
    - i) have had or are likely to have a detrimental effect on the quality of life of those in the locality
    - ii) are or are likely to be persistent or continuing in nature and to be unreasonable and justify the restrictions imposed
7. If any interested person desires to question the validity of this Order on the grounds that the Council had no power to make it or that any requirement of the Act has not been complied with in relation to this Order, he or she may apply to the High Court within six weeks from the date on which this Order is made.
8. Those persons described in Schedule 3 shall be exempt from the provisions of this Order.
9. Section 67 of the Act makes it is an offence for a person without reasonable excuse to:
  - i) do anything that the person is prohibited from doing by this order
  - ii) fail to comply with a requirement to which the person is subject under this orderA person guilty of an offence under this section is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3.

### Schedule 1

Restricted Area: The public path between the rear of 104-111 Bute Street and 1-32 St Clair Court, West Bute Street, Butetown

Location of Barriers: 2 number restrictions to be placed at the entrances to the restricted area:

- i) Between the rear of 111/112 Bute Street and St Clair Court, West Bute Street ST319064/ST174686 (ordnance survey reference no.)
- ii) Between the rear of 104 Bute Street and St Clair Court, West Bute Street, Butetown ST319065/ST174637 (ordnance survey reference no)

### Schedule 2

The alternative route is via the highways to the side of 111/112 Bute Street, in front of 112-102 Bute Street, to the side of 102 Bute Street, along James Street, in front 12 West Bute Street and in front of and to the side of 1-32 St Clair Court as set out in the Plan annexed to this Order.

### Schedule 3

The restriction referred to in paragraph 3 of the Order shall not apply to the occupiers of premises adjoining or adjacent to the relevant Restricted Area, an officer of the Council, the Police, and Fire or Ambulance Services who have cause to use the Restricted Area in the performance of their statutory powers and duties and any statutory undertaker requiring access to their apparatus.

Dated this 16 MAY, 2018.

THE COMMON SEAL OF THE  
COUNTRY COUNCIL OF THE  
CITY AND COUNTRY OF  
CARDIFF was hereunto affixed in  
the presence of:-



Authorised signatory



**CARDIFF COUNTY COUNCIL**  
**CYNGOR SIR CAERDYDD**



CHIEF EXECUTIVE  
Paul Orders  
County Hall  
Atlantic Wharf  
Cardiff CF10 4UW  
tel: 029 20872000

Title:  
Ship Lane  
Drawn by: JCH  
Date: 23/05/14  
Scale: 1:500  
Centre Coords: 319067 / 174649  
Drawing No.: 001

© Crown copyright and database rights (2013).  
This copy is produced specifically to supply County  
Council information NO further copies may be made  
Ordnance Survey 100023376 (2013).

Access to be restricted by  
Alley Gates



Alternative Route



Alley Gate



Cory's Buildings  
57

PLAS BU

7.9m

7.9m

113

112

111

PO

107

14

102

1 to 32

St Clair Court

12

JAMES STREET

7.6m

WEST BUTE STR

Theatre

Bay  
Chambers

PH

Arcade

21

18

16

14

18



**GORCHYMYN CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**  
**SHIP LANE, BUTETOWN**  
**GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS 2018**

Mae Cyngor Sir a Dinas a Sir Caerdydd ("y Cyngor"), wrth arfer ei bwerau dan Adran 59, 64 a 72 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 ("y Ddeddf"), a'r holl bwerau galluogi eraill, ac yn dilyn ymgynghoriad â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru ac eraill drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Daw'r Gorchymyn i rym ar 20 Mai 2018 a bydd ar waith am gyfnod o 3 blynedd wedi hynny, oni chaiff ei ddi-ddymu, ei ddiwygio neu ei ymestyn gan orchmynion eraill y Cyngor.
2. Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â'r rhan o'r llwybr cyhoeddus a nodir mewn coch ar y Cynllun atodedig ac a ddisgrifir yn Atodlen 1 ("yr Ardal Gyfyngedig").
3. Bydd y Gorchymyn hwn yn cyfyngu'r hawl dramwy gyhoeddus yn yr Ardal Gyfyngedig. Awdurdoda'r Gorchymyn hwn osod gatiau metel (a nodir â seren goch ar y Cynllun atodedig) yn y lleoliadau a nodir yn Atodlen 1 a fydd yn rhoi'r cyfyngiad ar waith.
4. Disgrifir y llwybr amgen i gerddwyr yn Atodlen 2.
5. Mae'r Cyngor yn fodlon bod yr amodau a nodir yn Adrannau 59, 64 a 72 y Ddeddf wedi'u bodloni a'i bod ym mhob sefyllfa'n fuddiol gwneud y Gorchymyn hwn at ddibenion lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr Ardal Gyfyngedig.
6.
  - a. Mae'r Cyngor yn fodlon bod y gweithgareddau canlynol wedi digwydd, neu eu bod yn debygol o ddigwydd, yn y man cyhoeddus: Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
  - b. Mae'r Cyngor yn gwneud y Gorchymyn hwn am ei fod yn fodlon, ar sail resymol, fod y gweithgareddau sy'n digwydd neu'n debygol o ddigwydd yn y man cyhoeddus sy'n ffurfio'r Ardal Gyfyngedig:-
    - i) wedi neu'n debygol o gael effaith andwyol ar ansawdd bywyd trigolion yr ardal
    - ii) yn debygol o fod yn barhaus a'u bod yn afresymol, gan gyfiawnhau'r cyfyngiadau
7. Os hoffai unrhyw berson â diddordeb gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oes gan y Cyngor y pŵer i'w wneud, neu am nas bodlonwyd unrhyw un o ofynion y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn, gall wneud cais i'r Uchel Lys ymhen chwe wythnos o'r dyddiad y cafodd y Gorchymyn ei wneud.
8. Bydd y rheiny a ddisgrifir yn Atodlen 3 wedi'u heithrio o ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn.
9. Dan Adran 67 y Ddeddf mae'n drosedd i unrhyw un wneud y canlynol heb esgus rhesymol:
  - i) unrhyw beth y gwaherddir iddo'i wneud dan y gorchymyn hwn
  - ii) methu â bodloni gofyniad sy'n berthnasol iddo dan y gorchymyn hwn

Mae person sy'n euog o gyflawni trosedd dan yr adran hon yn atebol drwy gollfarn ddiannod i ddirwy hyd at lefel 3.

### **Atodlen 1**

Yr Ardal Gyfyngedig: Y llwybr cyhoeddus rhwng cefn 104-111 Stryd Bute a 1-32 St Clair Road, West Bute Street, Butetown

Lleoliad y Rhwystrau: Dau gyfyngiad i'w gosod wrth fynedfeydd yr ardal gyfyngedig:

- i) Rhwng cefn 111/112 Stryd Bute a St Clair Road, West Bute Street, Butetown ST319064/ST174686 (rhif cyfeirnod arolwg ordnans)
- ii) Rhwng cefn 104 Stryd Bute a St Clair Road, West Bute Street, Butetown ST319065/ST174637 (rhif cyfeirnod arolwg ordnans)

### **Atodlen 2**

Bydd y llwybr amgen drwy'r priffyrdd i ochr 111/112 Stryd Bute, o flaen 112-102 Stryd Bute, i ochr 102 Stryd Bute, ar hyd James Street, o flaen 12 West Bute Street ac o flaen ac i'r ochr o 1-32 St Clair Court fel y'i nodir yn y Cynllun a atodir i'r Gorchymyn hwn.

### **Atodlen 3**

Ni fydd y cyfyngiad y cyfeirir ato ym mharagraff 3 y Gorchymyn uchod yn berthnasol i ddeiliaid eiddo sy'n ffinio â neu sydd ger yr Ardal Gyfyngedig, swyddogion y Cyngor, yr Heddlu na'r Gwasanaethau Tân ac Ambiwlans sydd angen defnyddio'r Ardal Gyfyngedig i gyflawni eu pwerau a'u dyletswyddau statudol ac unrhyw un sy'n ymgymryd â'u dyletswyddau statudol y mae angen mynediad arnynt i'w hoffer.

Dyddiedig 16 Mai, 2018

RHODDWDYD SÊL GYFFREDIN  
CYNGOR SIR  
DINAS A SIR  
CAERDYDD yma yng  
ngŵydd:-

Llofnodwr awdurdodedig